

EGLWYS DYFRIG SANT
TREFFOREST

OFFEREN YR EISTEDDFOD

8 Awst 2024 am 6.00 y.h.



Llywydd
Yr Esgob Emeritus
Y Gwir Barchedig
Edwin Regan

ARCHBISHOP *of* CARDIFF
ARCHESGOB CAERDYDD



BISHOP *of* MENEVIA
ESGOB MYNYW

Neges ar achlysur Offeren yr Eisteddfod, Awst 2024

'Rwyf yn anfon fy nghyfarchion cynhesaf atoch ar yr achlysur hyfryd hwn, ac yn wir gofidio na allaf fod gyda chi yn bersonol. Yr wyf yn llawenhau fod yr Eglwys Gatholig yng Nghymru bellach yn gwbl ymroddedig i fywyd yr Eisteddfod, mewn partneriaeth â Cytûn.

Atgoffodd 2^{il} Gyngor y Fatican ni fod llenyddiaeth, celfyddyd, a cherddoriaeth yn ddoniau pwysig oddi wrth Dduw er mwyn adeiladu byd mwy trugarog. '*Ceisiant dreiddio i'n natur, ein anawsterau a'n profiadau wrth i ni ymdrechu i ddarganfod a pherffeithio ein hunain a'r byd yr ydym yn byw ynddo, ... i daflu goleuni ar ein dioddefaint a'n llawenydd, ein hanghenion a'n galluoedd. Felly, gallant ddyrchafu bywyd dynol.*' [Gaudium et Spes, 62.]

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol, ynghyd ag Eisteddfod yr Urdd, yn chwarae ei rhan yn hyrwyddo'r anrhegion hynny. Mae'n meddiannu lle unigryw ym mywyd Cymru, treftadaeth y mae angen inni ei gwerthfawrogi a'i choleddu. Dathlwn yr hyn sy'n ein huno, mewn cystadleuaeth gyfeillgar, er mwyn i'r doniau a roddodd Duw inni gyfoethogi bywydau llawer o rai eraill.

Fel cyd-Gelt, o dras Wyddelig a chariad at yr iaith Geltaidd honno, rwy'n gwerthfawrogi gwerth iaith a rennir. Mae ein hiaith hynafol yn mynegi gwerthoedd a rennir i'r genhedlaeth bresennol. Mae'n cysylltu ni â chof am y pethau a fu ac sydd wedi ein gwneud ni y bobl ydyn ni heddiw. Mae'r iaith gyffredin honno hefyd yn ymestyn i genedlaethau i ddod, gan gadw'n fyw a datblygu ein hymdeimlad o fod yn bobl sy'n wahanol i, ond yn unedig â chenhedloedd eraill. Mae presenoldeb byw yr iaith Gymraeg yn anrheg i holl bobl Cymru.

'Rwy'n cynnig fy nghyfarchion arbennig i Swyddogion Cytûn, ac aelodau eraill o'r Eglwys Cristnogol sydd yn bresennol gyda ni heno. Mae mor dda eich bod chi yma gyda ni!

Estynnaf at bawb yma, fy mendith, a lle cynnes yn fy ngweddïau – edrychaf ymlaen at glywed sut aeth y cyfan!

Message at the Mass for the Eisteddfod, August 2024.

I send you my warmest greetings on this lovely occasion, and truly regret that I cannot be with you in person. I rejoice that the Catholic Church in Wales is now fully committed to the life of the Eisteddfod, in partnership with Cytûn.

The 2nd Vatican Council reminded us that literature, art, and music are important gifts of God in building up a more humane world. *'They seek to penetrate our nature, our problems and experiences as we endeavour to discover and perfect ourselves and the world in which we live... to throw light on our suffering and joy, our needs and capabilities. Hence, they can elevate human life.'* [Gaudium et Spes, 62.]

The National Eisteddfod, together with the Urdd Eisteddfod, plays its part in promoting those gifts. It occupies a unique place in the life of Wales, a patrimony that we need to value and to cherish. We celebrate that which unites us, in friendly competition, so that the talents which God has given to us may enhance the lives of many others.


As a fellow Celt, with Irish ancestry and a love of that Celtic language, I appreciate the value of a shared tongue. Our ancient language expresses shared values to the present generation. It links us to the memory of the past and has made us the people we are today. That shared language also extends into further generations, keeping alive and developing our sense of being a people distinct from, yet united to, other nations. The living presence of the Welsh language is a gift to all the people of Wales.

I offer my special greetings to the Officers of Cytûn, and other members of the Christian Churches present with us this evening. It is so good that you are here with us!

I extend to all gathered, my blessing, and a cordial place in my prayers – I look forward to hearing how it all went!

Yr eiddoch yn ffyddlon yng Nghrist,

Yours devotedly in Christ,

A handwritten signature in black ink, reading '+Mark O'Toole'. The signature is written in a cursive style with a large, stylized 'O' and a long, sweeping tail.

Y Parchedigaaf Most Rev Mark O'Toole
Archesgob Caerdydd Esgob Mynyw
Archbishop of Cardiff Bishop of Menevia.

EMYN YR YNTRED
(Emynau Catholig 242)
Ann Griffiths (1776-1805)
*Tôn: Cwm Rhondda**

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
wrthrych teilwng o'm holl fryd,
er mai o ran yr wy'n adnabod
ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:
henffych fore
y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd;
ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd:
ffrind pechadur,
dyma ei beilot ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf
ag eilunod gwael y llawr?
tystio 'rwyf nad yw eu cwmni
i'w gystadlu â Iesu mawr :
O am aros
yn ei gariad ddyddiau f'oes.

** Ysgrifennwyd y dôn gan John Hughes yn 1907 i ddathlu sefydlu'r organ newydd yng Nghapel Rhondda, Trehopcyn, rhyw ddwy filltir oddi yma.*

RHAGARWEINIAD

Esgob:

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd
Glân.

Pawb:

Amen

Esgob:

Tangnefedd a fo gyda chwi.

Pawb:

A chyda thithau

GWEITHRED O EDIFEIRWCH

Esgob:

Frodyr a chwiorydd, gadewch
inni gydnabod ein pechodau
gerbron Duw, er mwyn bod yn
gymwys i weinyddu'r
dirgeleddau sanctaidd.

Ar ôl ennyd o ddistawrwydd:

Esgob: Fe'th anfonwyd i iacháu'r
rhai edifar o galon: Arglwydd,
trugarha wrthym.

Pawb: **Arglwydd, trugarha wrthym.**

Esgob: Fe ddaethost i alw

pechaduriaid. Crist, trugarha
wrthym.

Pawb: **Crist, trugarha wrthym.**

Esgob: Ti sy'n eistedd ar
ddeheulaw'r Tad, i eiriol drosom:
Arglwydd, trugarha wrthym.

Pawb: **Arglwydd, trugarha wrthym.**

Esgob:

Bydded i Dduw Hollalluog
drugarhau wrthym, a maddau
ein pechodau, a'n harwain i'r
bywyd tragwyddol.

Pawb:

Amen.

INTRODUCTION

Bishop:

In the name of the Father, and of
the Son, and of the Holy Spirit.

All:

Amen

Bishop:

Peace be with you.

All:

And with your spirit

PENITENTIAL ACT

Bishop:

Brothers and sisters,
let us acknowledge our sins,
and so prepare ourselves to
celebrate the sacred mysteries.

A brief pause for silence follows. Then:

Bishop: You were sent to heal the
contrite: Lord, have mercy.

All: **Lord, have mercy.**

Bishop: You came to call sinners:
Christ, have mercy.

All: **Christ have mercy.**

Bishop: You plead for us at the right
hand of the father: Lord, have mercy

All: **Lord, have mercy.**

Bishop:

May almighty God have mercy
on us,
forgive us our sins,
and bring us to everlasting life.

All:

Amen.

Y COLECT

Esgob:

Gweddiwn.

Tydi, Arglwydd, yw ein creawdwr a'n cynhaliwr, ac ynot ti y mae ein hymffrost ni oll: bydd gyda ni yn raslon yn ôl dy addewid, ac adnewyddda ynom nerth dy Ysbryd, fel y byddom byth mwy yn ffyddlon i'th ras. Trwy Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd, sydd gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân yn Dduw byw, a'i frenhiniaeth yn parhau yn oes oesoedd.

Amen.

GWASANAETH Y GAIR

Eistedd

Darlleniad o Llyfr y Proffwyd Jeremeia (31.31-34)

"Mae'r amser yn dod," meddai'r ARGLWYDD, "pan fydda i'n gwneud ymrwymiad newydd gyda phobl Israel a Jwda. Fydd hwn ddim yr un fath â'r un wnes i gyda'u hynafiaid (pan afaelais yn eu llaw a'u harwain allan o'r Aiff). Roedden nhw wedi torri amodau'r ymrwymiad hwnnw, er fy mod i wedi bod yn wr ffyddlon iddyn nhw. Dyma'r ymrwymiad fydda i'n ei wneud gyda phobl Israel bryd hynny," meddai'r ARGLWYDD: "Bydda i'n rhoi fy nghyfraith yn eu calonnau nhw, ac yn ei hysgrifennu ar eu meddyliau nhw. Fi fydd eu Duw nhw, a nhw fydd fy mhobl i. Fyddan nhw ddim yn gorfod dysgu pobl eraill, a dweud wrth ei gilydd, 'Rhaid i ti ddod i nabod yr ARGLWYDD'. Byddan nhw i gyd yn fy nabod i, y bobl gyffredin a'r arweinwyr, am fy mod i'n maddau iddyn nhw am y pethau wnaethon nhw o'i le, ac yn anghofio'u pechodau am byth."

Gogoniant i Dduw am ei air.

Pawb: **Diolch i ti, O Dduw.**

THE COLLECT

Bishop:

Let us pray.

You, Lord, are our creator and support, and all our delight is in you: according to your promise, graciously remain with us and renew in us the strength of your Spirit, that we may be ever more faithful in your grace. Through our Lord Jesus Christ, your Son, who lives and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, God, for ever and ever.

Amen.

LITURGY OF THE WORD

Sit

A reading from the prophet Jeremiah (31.31-34)

Look, the days are coming, the LORD declares, when I shall make a new covenant with the House of Israel (and the House of Judah),

but not like the covenant I made with their ancestors the day I took them by the hand to bring them out of Egypt, a covenant which they broke, even though I was their Master, the LORD declares.

No, this is the covenant I shall make with the House of Israel when those days have come the LORD declares. Within them I shall plant my Law, writing it on their hearts. Then I shall be their God and they will be my people.

There will be no further need for everyone to teach neighbour or brother, saying, "Learn to know Yahweh!" No, they will all know me, from the least to the greatest, the LORD declares, since I shall forgive their guilt and never more call their sin to mind.

The word of the Lord

All: **Thanks be to God.**

Y Salm *51.10-13, 16-17 (Ateb 10)*

Mae'r côr yn canu'r salm

Ateb:

Crea galon lân ynof, O Dduw.

Crea galon lân ynof, O Dduw,
rho ysbryd newydd cadarn ynof.
Paid â'm bwrw ymaith oddi wrthyt,
na chymryd dy ysbryd sanctaidd oddi arnaf.

Ateb:

Dyro imi eto orfoledd dy iachawdwriaeth,
a chynysgaedda fi ag ysbryd ufudd.
Dysgaf dy ffyrdd i droseddwy'r,
fel y dychwelo'r pechaduriaid atat.

Ateb:

Oherwydd nid wyt yn ymhyfrydu mewn
aberth;
pe dygwn boethoffrymau, ni fyddit fodlon.
Aberthau Duw yw ysbryd drylliedig;
calon ddrylliedig ac edifeiriol
ni ddirmygu, O Dduw.

Ateb:

Sefyll

Allelwia, allelwia!

(Mathew 16.18)

Ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr
adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl
bwerau angau y trechaf arni.

Allelwia!

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

Pawb: A chyda thithau

Darlleniad o'r Efengyl sanctaidd yn ôl
Mathew *(16.13-23)*

Pawb: Gogoniant i ti, O Arglwydd

Daeth Iesu i barthau Cesarea Philipi, a
holodd ei ddisgyblion: "Pwy y mae pobl
yn dweud yw Mab y Dyn?" Dywedasant
hwythau, "Mae rhai'n dweud Ioan
Fedyddiwr, ac eraill Elias, ac eraill
drachefn, Jeremeia neu un o'r
proffwydi." "A chwithau," meddai
wrthynt, "pwy meddwch chwi ydwyf
fi?" Atebodd Simon Pedr, "Ti yw'r
Meseia, Mab y Duw byw." Dywedodd
Iesu wrtho, "Gwyn dy fyd, Simon fab
Jona, oherwydd nid cig a gwaed a
ddatguddiodd hyn iti ond fy Nhad, sydd
yn y nefoedd. Ac rwyf fi'n dweud wrthynt

The Psalm *50 12-15, 18-19 (Response 12)*

Response:

A pure heart create for me, O God.

A pure heart create for me, O God,
put a steadfast spirit within me.
Do not cast me away from your presence,
nor deprive me of your holy spirit.

Response:

Give me again the joy of your help;
with a spirit of fervour sustain me,
that I may teach transgressors your ways
and sinners may return to you.

Response:

For in sacrifice you take no delight,
burnt offering from me you would refuse,
my sacrifice a contrite spirit.
A humbled, contrite heart you will not spurn.

Response:

Stand

Alleluia, Alleluia!

(Matthew 16.18)

You are Peter and on this rock I will
build my Church. And the gates of the
underworld can never hold out against
it.

Alleluia!

The Lord be with you.

All: And with your spirit.

A reading from the holy Gospel
according to Matthew *(16.13-23)*

All: Glory to you, O Lord.

When Jesus came into the district of
Caesarea Philippi, he asked his
disciples, "Who do men say that the Son
of man is?" And they said, "Some say
John the Baptist, others say Elijah, and
others Jeremiah or one of the prophets."
He said to them, "But who do you say
that I am?" Simon Peter replied, "You
are the Christ, the Son of the living
God." And Jesus answered him,
"Blessed are you, Simon son of Jonah!
For flesh and blood has not revealed
this to you, but my Father who is in

mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni. Rhoddaf iti allweddau teyrnas nefoedd, a beth bynnag a waherddi ar y ddaear a waherddir yn y nefoedd, a beth bynnag a ganiatei ar y ddaear a ganiateir yn y nefoedd.” Yna gorchmynnodd i’w ddisgyblion beidio â dweud wrth neb mai ef oedd y Meseia.

O'r amser hwnnw y dechreuodd Iesu ddangos i’w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fynd i Jerwsalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid a'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd ei gyfodi. A chymerodd Pedr ef a dechrau ei geryddu gan ddweud, “Na ato Duw, Arglwydd! Ni chaiff hyn ddigwydd i ti.” Troes yntau, a dywedodd wrth Pedr, “Dos ymaith o'm golwg, Satan; maen tramgwydd ydwyt imi, oherwydd nid ar bethau Duw y mae dy fryd ond ar bethau dynol.”

Gogoniant i Dduw am ei Air.

Pawb: Moliant i ti, O Grist.

Y BREGETH

Eistedd

Y WEDDI GYFFREDINOL

Sefyll

YR OFFRYMIAD

Eistedd

***YN YSTOD Y CANU, BYDD
CASGLIAD TUAG AT GYNNAL YR
EGLWYS LEOL***

heaven. And I tell you, you are Peter, and on this rock I will build my church, and the powers of death shall not prevail against it. I will give you the keys of the kingdom of heaven, and whatever you bind on earth shall be bound in heaven, and whatever you loose on earth shall be loosed in heaven.” Then he strictly charged the disciples to tell no one that he was the Christ.

From that time Jesus began to show his disciples that he must go to Jerusalem and suffer many things from the elders and chief priests and scribes, and be killed, and on the third day be raised. And Peter took him and began to rebuke him, saying, “God forbid, Lord! This shall never happen to you.” But he turned and said to Peter, “Get behind me, Satan! You are a hindrance to me; for you are not on the side of God, but of men.”

The Gospel of the Lord.

All: Praise to you, Lord Jesus Christ

THE HOMILY

Sit

THE UNIVERSAL PRAYER

Stand

THE OFFERTORY

Sit

***DURING THE SINGING THERE
WILL BE A COLLECTION FOR THE
LOCAL CHURCH***

EMYN YR OFFRWM

(Eymynau Catholig 85)

1 *Dave Bilbrough cyf. Catrin Alun*

2,3 *Siôn Aled*

Tôn: Dyro dy gariad

Dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad fyddo'n ein plith;
dyro dy gariad i Gymru,
bendithiwn gwasgar fel gw lith:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

Mewn byd o newyn a thristwch
dysg i ni rannu pob rhodd,
mawr yw dy gariad di atom,
dysg inni garu'r un modd:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

Gwna ni yn lampau d'oleuni
lle byddo t'wyllwch a thrais,
gwna ni'n gyhoeddwy'r dy obaith
fel clywo'r bobloedd dy lais:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

GWASANAETH YR EWCHARIST

Esgob:

Gweddïwch, frodyr a chwiorydd, ar fod fy aberth i a'ch aberth chwithau'n gymeradwy gan Dduw Dad Hollalluog.

Mae pawb yn sefyll ac yn ateb:

Derbynied yr Arglwydd yr aberth o'th ddwylo, er mawl a gogoniant i'w enw, ac er lles i ni, ac i'w Eglwys sanctaidd oll.

Esgob:

Sancteiddia'r rhoddion hyn, Arglwydd, o'th drugaredd, ac wedi derbyn offrwm yr aberth ysbrydol, gwna ni ein hunain yn deyrnged dragwyddol i ti. Trwy Grist ein Harglwydd.

Pawb: Amen.

Y WEDDI EWCHARISTAIDD

Esgob: Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

Pawb: A chyda thithau.

Esgob: Dyrchafwn ein calonnau

Pawb: Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.

Esgob: Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

Pawb: Addas a chyfiawn ydyw.

SANCTUS

(EC 265 EL Whelan)

Pawb:

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, Arglwydd Dduw'r lluoedd. Mae nef a daear yn llawn o'th ogoniant.

Hosanna yn y goruchaf.

Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.

Hosanna yn y goruchaf.

Penlinio

LITURGY OF THE EUCHARIST

Bishop:

Pray, brothers and sisters, that my sacrifice and yours may be acceptable to God, the almighty Father.

All stand and reply:

May the Lord accept the sacrifice at your hands for the praise and glory of his name, for our good and the good of all his holy Church.

Bishop:

Sanctify these gifts, Lord, in your mercy, and having received this spiritual sacrifice, make us an eternal offering to you. Through Christ our Lord.

All: Amen.

THE EUCHARISTIC PRAYER

Bishop: The Lord be with you.

All: And with your spirit.

Bishop: Lift up your hearts.

All: We lift them up to the Lord.

Bishop: Let us give thanks to the Lord our God.

All: It is right and just.

SANCTUS

All:

**Holy, Holy, Holy, Lord God of hosts
Heaven and earth are full of your glory.**

Hosanna in the highest.

Blessed is he who comes in the name of the Lord.

Hosanna in the highest.

Kneel

Dyma ddirgelwch y Ffydd:

Tôn: Buddigoliaeth

Iesu fu farw drosom ni,
Cyfodi wnaeth y trydydd dydd,
Daw yng ngogoniant maith y nef –
Aleliwia!

AMEN.

Y CYMUN

Sefyll

Esgob:

Gan ddilyn ei athrawiaeth a'i
gyfarwyddyd, ymunwn yn
hyderus yn ei weddi ef, gan
ddweud:

Pawb:

Ein Tad, y sy yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
bydded dy ewyllys,
ar y ddaear megis yn y nef.
Dyro i ni heddiw ein bara
beunyddiol,
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n
dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth,
eithr gwared ni rhag drwg.

Esgob:

Gwared ni, Arglwydd, rhag pob
drwg, a dyro o'th dosturi
dangnefedd yn ein dyddiau, fel,
trwy gymorth dy drugaredd, y
byddom bob amser yn rhydd
oddi wrth bechod ac yn ddiogel
rhag pob aflonyddwch; gan
ddisgwyl ymglyflawniad ein
gobaith, ac ymddangosiad ein
Hiachawdwr Iesu Grist.

Pawb:

Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r
gallu a'r gogoniant, yn dragywydd.

The mystery of Faith

We proclaim your Death, O Lord,
and profess your Resurrection
until you come again..

AMEN.

THE COMMUNION RITE

Stand

Bishop:

At the Saviour's command
and formed by divine teaching,
we dare to say:

All:

Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come,
thy will be done
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread,
and forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass
against us;
and lead us not into temptation,
but deliver us from evil.

Bishop:

Deliver us, Lord, we pray, from
every evil,
graciously grant peace in our
days,
that, by the help of your mercy,
we may be always free from sin
and safe from all distress,
as we await the blessed hope
and the coming of our Saviour,
Jesus Christ.

All:

For the kingdom,
the power and the glory are yours
now and for ever.

Esgob:

Arglwydd Iesu Grist, a ddywedodd wrth dy apostolion: Tangnefedd a adawaf i chwi, fy nhangnefedd a roddaf i chwi, nac edrych ar ein pechodau, ond ar ffydd dy Eglwys; a dyro iddi'n rhodd y tangnefedd a'r undeb a fynni di, sy'n byw ac yn teyrnasu yn oes oesoedd.

Pawb:

Amen.

Esgob:

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.

Pawb:

A chyda thithau.

Mynegwn dangnefedd wrth ein gilydd.

*Yn y cyfamser fe genir y canlynol:
(EC 265 EL Whelan)*

**Oen Duw, sy'n dwyn ymaith
bechodau'r byd,
trugarha wrthym.**

**Oen Duw, sy'n dwyn ymaith
bechodau'r byd,
trugarha wrthym.**

**Oen Duw, sy'n dwyn ymaith
bechodau'r byd,
dyro i ni dangnefedd.**

Penlinio

Esgob:

Wele Oen Duw, wele'r hwn sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd. Gwyn eu byd y rhai a elwir i wledd yr Oen.

Bishop:

Lord Jesus Christ, who said to your Apostles: Peace I leave you, my peace I give you; look not on our sins, but on the faith of your Church, and graciously grant her peace and unity in accordance with your will. Who live and reign for ever and ever.

All:

Amen.

Bishop:

The peace of the Lord be with you always.

All:

And with your spirit.

Let us offer each other the sign of peace.

Meanwhile the following is sung:

**Lamb of God, you take away
the sins of the world,
have mercy on us.**

**Lamb of God, you take away
the sins of the world,
have mercy on us.**

**Lamb of God, you take away
the sins of the world,
grant us peace.**

Kneel

Bishop:

Behold, the Lamb of God, behold him who takes away the sins of the world. Blessed are those called to the supper of the Lamb.

Pawb:

Arglwydd, nid wyf i'n
deilwng iti ddyfod dan fy
nho, eithr yn unig dywed y
gair a daw fy enaid yn iach.

All:

Lord, I am not worthy
that you should enter under
my roof,
but only say the word
and my soul shall be healed.

Côr: Llurig Padrig

(Emynau Catholig 46)

cyf. E Maldwyn Evans, 1903-69

Tôn: Llantrisant

Crist yn fymyl, Crist o'm mewn i

EMYN Y CYMUN

(Emynau Catholig 194)

William Williams, 1717-91

Tôn: Rhosymedre

O nefol, addfwyn Oen,
sy'n llawer gwell na'r byd,
a lluoedd maith y nef
yn rhedeg arno'u bryd,
dy ddawn a'th ras a'th gariad drud
sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd,
sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd.

Noddfa pechadur trist
dan bob drylliedig friw
a phwys euogrwydd llym
yn unig yw fy Nuw;
'does enw i'w gael o dan y nef
yn unig ond ei enw ef,
yn unig ond ei enw ef.

Ymgrymed pawb i lawr
i enw'r addfwyn Oen,
yr enw mwyaf mawr
erioed a glywyd sôn:
y clod, y mawl, y parch a'r bri
fo byth i enw'n Harglwydd ni,
fo byth i enw'n Harglwydd ni.

Esgob:

Gweddiwn.

Sefyll

Trwy dy rodd nefol di,
Arglwydd, y cawn ein
hadnewyddu'n gyson: dyro inni
gan hynny dy nawdd a'th
ymgeledd, fel y tyfom yn
deilwng o'r iachawdwriaeth
dragwyddol. Trwy Grist ein
Harglwydd.

Pawb:

Amen.

Esgob:

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

Pawb:

A chyda thithau.

Esgob:

Bendith Duw Hollalluog a fo
gyda chwi, y ✠ Tad a'r ✠ Mab
a'r ✠ Ysbryd Glân.

Pawb:

Amen.

Esgob:

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Pawb:

Diolch i ti, O Dduw.

Bishop:

Let us pray.

Stand

Through your heavenly gift,
Lord, we are constantly
renewed: give us therefore your
protection and support, that we
may become worthy of eternal
salvation. Through Christ our
Lord.

All:

Amen.

Bishop:

The Lord be with you.

All:

And with your spirit.

Bishop:

May God almighty bless you, the ✠
Father, and the ✠ Son, and the
✠ Holy Spirit.

All:

Amen.

Bishop:

Go in peace.

All:

Thanks be to God.

EMYN OL-YMDEITHIOL
(Emynau Catholig 77)
Lewis Valentine, 1893-1986
Tôn: Finlandia

Dros Gymru'n gwlad, O! Dad
dyrchafwn gri,
Y winllan wen a roed i'n
gofal ni;
D'amddiffyn cryf a'i cadwo'n
ffyddlon byth,
A boed i'r gwir a'r glân gael
ynddi nyth;
Er mwyn dy Fab a'i prynodd
iddo'i hun,
O! crea hi yn Gymru ar dy
lun.


O! deued dydd pan fo awelon
Duw
Yn chwythu eto dros ein
herwau gwyw,
A'r crindir cras dan ras
cawodydd nef
Yn erddi Crist, yn ffrwythlon
iddo Ef;
A'n heniaith fwyn â
gorfoleddus hoen
Yn seinio fry haeddiannau'r
Addfwyn Oen.



**Gwahoddir chwi'n gynnes i ymuno â ni am
luniaeth ysgafn ar ôl yr Offeren.**

**You are warmly invited to join us for light
refreshment after the Mass.**

*Diolch i bawb sydd wedi gweithio a chymryd rhan yn yr
Offeren hon: y Parchedig Gareth Leyshon a holl blwyfi'r
Rhondda am eu croeso; y Parchedig Dad Gildas Parry,
O. Præm. am bregethu; Carys Whelan am hyfforddi'r
côr a hwyluso'r trefniadau ym mhob agwedd gyda
Madeleine Bidder.*



Y CYLCH CATHOLIG

Pob un yn eu clywed yn ei iaith ei hun

Gwefan Newydd www.cylchcatholig.co.uk
Facebook Catholigion Cymraeg